Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Jenny Rathbone

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Trwy ebost

25ain o Dachwedd 2024

Annwyl Jenny,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Hydref 2024, yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion yn adroddiad SEHR yn ymwneud â chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a fy swyddfa i.

Rwy'n cefnogi'n llwyr yr argymhellion yn yr adroddiad: gan gynnwys yr argymhelliad i'm tîm a minnau weithio gyda'r Comisiwn i archwilio cyfleoedd i wella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys protocolau ar gyfer rhannu data; a chydgysylltu camau gweithredu gan ddefnyddio pwerau presennol i ddwyn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif.

Cynhwysaf yma grynodeb o rai o'r camau yr ydym wedi'u cymryd yn unol â'r argymhelliad hwn. Mae rhai o'r camau gweithredu cyn yr adroddiad ac maent wedi'u cynnwys fel cyd-destun.

Er mwyn helpu i integreiddio'r dyletswyddau cydraddoldeb a llesiant yn ogystal â chefnogi'r gwaith o roi'r economi gymdeithasol newydd ar waith, buom yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2021 i gynhyrchu Cymru sy'm Fwy Cyfartal: Canllaw Mapio. Cynlluniwyd y Pecyn Cymorth i helpu cyrff cyhoeddus i gymhwyso'r tair set o ddyletswyddau mewn ffordd gyson.

Mae un o'r prosiectau allweddol yr ydym wedi partneru'n llwyddiannus arno mewn perthynas â'r argymhelliad hwn wedi canolbwyntio ar asesiadau effaith integredig. Trefnwyd cyfres o weithdai gan Lywodraeth Cymru yn gynharach eleni i greu cymuned ymarfer. Mae aelodau fy nhîm, gan gynnwys ein Dirprwy Gomisiynydd, wedi mynychu hwn. Mae fy swyddfa bellach yn gweithio ar gefnogi'r rhwydwaith hwn ac yn archwilio, gydag eraill gan gynnwys y Comisiwn, sut y gallwn

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru | **Future Generations** Commissioner for Wales

wella'r broses o integreiddio asesiadau effaith a gwella eu hansawdd yn gyffredinol. Byddwn yn cynnal dau weithdy yn y flwyddyn newydd a fydd yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn.

Mae fy Nirprwy Gomisiynydd hefyd wedi mynychu cyfarfodydd Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn cynnwys yr EHRC ac sy'n cael gwybod am ddatblygiad y grŵp. Gwnaethom sylwadau ar Gylch Gorchwyl drafft y grŵp i sicrhau ei fod yn integreiddio'n dda â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n deall nad yw'r grŵp wedi cyfarfod ers mis Chwefror 2024 oherwydd newidiadau o fewn Llywodraeth Cymru sydd wedi digwydd ers hynny a disgwyliaf glywed yn fuan erbyn y dyddiad nesaf.

Mae fy nhîm yn rhan o drafodaethau ochr yn ochr â'r EHRC gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella'r Gyllideb ac Effaith (BIIAG) a sefydlwyd gan Drysorlys Cymru i roi cyngor wrth iddynt baratoi cyllideb Llywodraeth Cymru.

Dros y misoedd diwethaf, mae fy nhîm a minnau wedi canolbwyntio ar gryfhau ein perthynas a'n cydweithrediad â'r EHRC er mwyn cyflawni fy strategaeth Cymru Can. Rydym wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd i gwmpasu rhaglen waith ar y cyd yr hoffem fwrw ymlaen â hi yn y dyfodol. Mae meysydd ar gyfer cydweithio arfaethedig a rhai posibl yn y dyfodol yn cynnwys y canlynol:

- mewnbwn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth ddrafftio Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 i sicrhau aliniad ac i atgyfnerthu ein gwaith priodol – rydym eisoes wedi cynnal sesiwn gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i lunio'r gwaith o ddrafftio argymhellion ynghylch nod Cymru Fwy Cyfartal ac wedi gwahodd mewnbwn pellach ganddynt yn ystod y cam nesaf yr ymglymiad;

- cydweithio ar weithio gyda chyrff cyhoeddus ar sut i wella eu hymwneud â phobl yr effeithir arnynt gan anghydraddoldebau, yn enwedig o safbwynt croestoriadol, a'r angen am arferion gorau cydraddoldeb a chynhwysiant i symud y tu hwnt i brosiectau ac i mewn i 'fusnes fel arfer'

- Mae Deallusrwydd Artiffisial yn nodwedd yn ein dwy strategaeth ac mae potensial i gydweithio ar y pwnc hwnnw;

- Y potensial i gydweithio i dynnu sylw at ddiffyg cynnydd ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wedi gwreiddio yng Nghymru, yn unol â 10fed pen-blwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y flwyddyn nesaf;

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

- Mae'r Comisiwn wedi nodi rôl iddyn nhw eu hunain wrth fynd i'r afael â phegynnu ac rydym wedi trafod sut y gallem gydweithio ar hyn yn y dyfodol;
- Y potensial i ni weithio gyda Bwrdd EHRC y DU ar sut mae ymagwedd sy'n canolbwyntio ar dueddiadau'r dyfodol yn darparu lens ddefnyddiol ar gyfer eu gwaith eu hunain.

Yn olaf, er gwaethaf cyfyngiadau capasiti, rwyf am sicrhau'r Pwyllgor fy mod yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd fy strategaeth Cymru Can.

Rwy'n gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Rhowch wybod i mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yr eiddoch yn gywir,

D. Walker

Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales